# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/01/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Rhys Llewelyn | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Carys Roberts |
| Caren Jones | Gareth Jones | Janice Evans | Gwynfor Jones | Rhian Sanson (Cofnodi) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts, Pat Humphreys, Lleucu Jones ac Alaw Llewelyn Roberts

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 13/12/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cais am Sied gan y Clwb Pêl-droed**
   Cadarnhawyd fod gohebiaeth wedi dod i law'r clerc sy'n nodi mai cost y sied fydd £1,388. Ychwanegwyd fod 2 aelod o CTN wedi bod i'r safle ac wedi penderfynu ar leoliad addas.
   Penderfyniad: talu am y sied a'r holl waith.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Gwynfor Jones

5. **Hwylusydd Tai Gwledig – Datblygiad Tai Fforddiadwy yn Morfa Nefyn**
   Cafwyd diweddariad gan Catrin Roberts a Llinos Bracegirdle, Tai Teg ar y Datblygiad Tai Fforddiadwy yn Morfa Nefyn. Bwriedir adeiladu 9 o dai ar y safle drwy Cynllun Tai Teg. Nodwyd fod posib y byddent yn ystyried safle arall yn yr ardal hefyd. Mi fydd y math o dai yn ddibynnol ar ganlyniadau adroddiad y Hwylusydd Tai Gwledig. Eglurwyd bod 1500 o holiaduron wedi ei rheadru yn y gymuned leol a derbyniwyd 26 ymateb. Amlygwyd eu bod wedi cynnal noson agored cyhoeddus a dim ond 6 person wnaeth fynychu. Nodwyd nad oedd y tywydd garw wedi helpu'r achos. Roedd yr ymateb hyd yma wedi bod yn hynod o gadarnhaol, gyda'r mwyafrif o bobl eisiau tai i'w prynu, yn ddelfrydol gyda tair llofft. Nodwyd eu bod yn ystyried ceisiadau gan bobl gyda incwm cyfunol yr aelwyd dros £25,000. Agorwyd y bwrdd i gwestiynau. Gofynnodd aelodau CTN wrth y swyddogion:
   - Diffinio beth yw lleol
   - Edrych ar gyfleon gwahanol i'r safle
   - Beth sy'n digwydd i weddill y tir?
   - Beth sy'n digwydd i'r llwybr cyhoeddus ar y tir?
   - A fydd mynediad newydd i'r safle o Lôn Uchaf hefyd ynghŷd â'r fynediad o Lôn Isaf?
   - Oes modd anfon cynlluniau arfaethedig o'r tai i aelodau CTN?
   - A fydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan bobl leol?

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

Cadarnhaodd y swyddogion Tai Teg y byddant yn crynhoi cwestiynau CTN ar e-bost ac yn holi Cyngor Gwynedd am atebion.

6. **Ffurfio Is-bwyllgor Blodau ar gyfer yr Eisteddfod**
   Yn dilyn awgrym gan aelodau'r cyngor i ffurfio Is-bwyllgor Blodau ar gyfer yr Eisteddfod, cytunwyd i'r aelodau rheiny sydd eisoes ar yr is-bwyllgor blodau cyffredinol fod yn rhan ohono gydag ambell i aelod arall petaent yn dymuno. Cytunwyd i barhau'r sgwrs yn y cyfarfod nesaf.

7. **Clwb Ieuenctid -** diweddariad
   Derbyniwyd ohebiaeth gan yr Arweinydd Gwaith Ieuenctid Cymunedol yn amlinellu'r costau pe byddem yn dymuno dechrau Clwb Ieuenctid wythnosol yn Nefyn. Soniwyd y byddai hefyd yn fuddiol petai CTN yn gwneud cais am grant gan yr Heddlu i ychwanegu at y costau. Penderfynwyd i basio hwn i cyfarfod fis nesaf er mwyn cael mwy o wybodaeth am y grant gan yr heddlu cyn dod i benderfyniad ar beth yn union mae'r CTN ei eisiau.

8. **Penodi cynrychiolydd CTN ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Edern**
   Nododd y cynrychiolydd ei bod wedi gorfod ymddiswyddo oherwydd ymrwymiadau eraill. Cynigiodd yr aelod bod aelod arall yn cynrychioli CTN ar y bwrdd. Cyfaddefodd yr aelod nad oedd yr ynrwymiadau eraill ganddi bellach ac o'r herwydd cynigiodd yr aelodau iddi gymryd ei sedd yn ôl ar y bwrdd petai prifathro'r ysgol yn caniatau hynny. Yn ddibynnol ar yr ymateb, cawn benderfynu yn cyfarfod mis nesaf.

9. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff** – diweddariad
   Dim diweddariad. Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

10. **Cais gan y Lleng Brydeinig i CTN brynu stand i ddal y torchau arCôf Golofn Morfa Nefyn**
    Nodwyd gan yr aelod fod y Lleng Brydeinig yn gofyn i CTN ariannu stand i ddal y torchau ar Côf Golofn Morfa Nefyn am nad oes un yno, fel sydd yn Nefyn ac Edern. Mae'r Lleng Brydeig am adnewyddu'r stand yn Nefyn ac yn Edern, ac yn fodlon cynnal a chadw'r un yn Morfa Nefyn os fydd CTN yn ei brynu yn y lle cyntaf. Mae aelod CTN am holi am bris.
    Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

11. **Prynu cwpwrdd i arddangos y rhoddion o'r Ariannin**
    Trafodwyd rhai posibiladau ond penderfynwyd ei drafod yng nghyfarfod mis nesaf.

12. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    **Cais am gyfraniad ariannol gan Cylch Meithrin Edern**
    Cytunwyd mewn egwyddor ond gofynnwyd i'r clerc holi'r trysorydd faint o wariant mae nhw'n ei ragweld a faint o ffynonellau/grantiau arall mae nhw'n rhagweld eu derbyn, cyn penderfynu ar swm penodol.
    **Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder**
    Trafodwyd hyn yn fras a dywedwyd wrth yr aelodau y gallent gyflwyno sylwadau yn dilyn y ddolen ar yr e-bost, petaent yn dymuno.
    **Cyflwr y llwybr sy'n mynd i lawr i'r traeth yn Nefyn**

Diolchwyd i'r aelod fu lawr yn llenwi'r twll yn y llwybr. Nodwyd hefyd bod lluniau wedi'w hanfon at Gyngor Gwynedd a'u bod yn monitro'r sefyllfa.

**Ebost Cyngor Tref Pwllheli ynglŷn â'r Ambiwlans Awyr**

Cynigwyd bod y Clerc yn anfon llythyr ar ran CTN yn gwrthwynebu'r cynnig, o ystyried fod pobl leol yr ardal wedi bod yn cefnogi a chodi arian a tuag at yr elusen ers blynyddoedd.

**13. Ceisiadau Cynllunio**

**C22/1170/42/DT** – Maes Tirion, Lôn Uchaf, Morfa Nefyn – Estyniad i fodurdy

Penderfyniad: Cynnig bod amod yn cael ei roi ar yr estyniad i sicrhau mai modurdy yn unig fydd o a dim byd arall.

Ceisiadau Diweddarach

**14. Taliadau i'w gwneud**

Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:

- Cyflog y Clerc – £1118.38
- Ian Williams – Torri brigau'r goeden sydd wrth y Llyfrgell - £480.00
- D M Parry – Pumed taliad mynwent Nefyn - £850.00
- Cliff Hughes – Taliad 8 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1332.00
- HMRC – PAYE mis 9 - £111.63
- A R Jones Electrical Ltd – Gosod a tynu goleuadau nadolig ar goeden Morfa Nefyn ac Edern - £250.00
- Cyngor Gwynedd – treth Llyfrgell Nefyn 2022-2023 - £1712.00
- Llanw Llŷn – hysbyseb tendar llwybrau a mynwentydd - £25.20

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.

Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Gwynfor Jones

15. **Taliadau wedi eu derbyn**

- Cronfa Covid-19 – Ad-daliad - £3392.77

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298